

**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A
DIWYLLIANT
1 RHAGFYR 2022**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 1 Rhagfyr 2022.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Gina Maddison, Dave Mackie, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley.

CYFETHOLEDIG: Mrs Lynne Bartlett

YMDDIHEURIADAU: Mrs Wendy White

DIRPRWYON: Y Cynghorydd: Linda Thomas (ar ran y Cynghorydd Ryan McKeown)

CYFRANWYR:

Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden; Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Cyllid Strategol (Systemau Cyfalaf, Technegol ac Ariannol); Rheolwr Cyllid Strategol (Strategaeth Ariannol ac Yswiriant); Uwch Reolwr Cynhwysiant a Dilyniant; Uwch Ymgynghorydd Addysgu – Ymgysylltu a Rheolwr Gweithrediadau - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

34. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

35. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 10 Hydref 2022, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Dave Mackie a Carolyn Preece.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 20 Hydref 2022, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Bill Crease a Carolyn Preece.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 a 20 Hydref a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

36. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad a chadarnhaodd nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r eitemau a oedd wedi'u rhestru. Cadarnhaodd fod bob cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cwblhau. Darparwyd gwybodaeth ar weithdy Estyn a sesiwn friffio'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion ac atgoffwyd aelodau y byddai'r gweithdy GwE yn cael ei gynnal ddydd Llun, 5 Rhagfyr am 2.00pm.

Cynigiodd Mrs Lynn Bartlett ddilyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Gladys Healey y cynnig hwnnw.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu oedd heb eu cwblhau.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 15 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

37. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A GOSOD CYLLIDEB 2023/24

Darparwyd cyflwyniad ar y cyd gan y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) a'r Rheolwr Cyllid Strategol (Strategaeth Ariannol ac Yswiriant) a oedd yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Pwrpas a Chefndir
- Atgoffa am Sefyllfa Gyllideb y Cyngor
- Pwysau Costau Addysg ac Ieuenctid
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Addysg ac Ieuenctid
- Pwysau Costau Ysgolion
- Gostyngiadau yng Nghyllideb Ysgolion
- Cyllid Ysgolion - 2022/23
- Pwysau Costau y Tu Allan i'r Sir
- Camau nesaf ar gyfer y Broses o Osod Cyllideb 2023/24

Diolchodd Aelodau i swyddogion am eu cyflwyniad, y manylion a ddarparwyd a'r gwaith a gwblhawyd i ymgysylltu gydag ysgolion ar draws Sir y Fflint. Gwnaethpwyd sylwadau am y sefyllfa ddigynsail ond roedd rhai elfennau cadarnhaol i'w nodi, gan gynnwys Prydau Ysgol Am Ddim.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor i'r sylwadau a wnaed gan Aelodau mewn perthynas â'r angen i ysgolion gael eglurhad a sicrwydd ar eu cyllidebau cyn gynted â phosibl ac roedd yn cytuno â'r sylwadau. Roedd yn gobeithio y byddai'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr yn darparu hyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ryan McKeown

PENDERFYNWYD:

Casglu a rhannu'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor â'r Cabinet cyn y cyfarfod ar 20 Rhagfyr 2022.

38. ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr – Cynhwysiant a Dilyniant adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar nifer y plant a oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Darparodd yr adroddiad wybodaeth ar yr oedrannau a'r niferoedd ar gyfer Sir y Fflint, a oedd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru ar hyn o bryd, a darparwyd amlinelliad o ganran y disgyblion a oedd yn derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref a phryd roedd hyn yn digwydd, nodwyd bod blwyddyn 7 yn flwyddyn dyngedfennol ar gyfer hyn wrth i blant symud i'r ysgol uwchradd.

Nododd yr Uwch Reolwr nad oedd rhaid i rieni geisio cymeradwyaeth na rhoi gwybod i'r Awdurdod eu bod yn dewis addysgu eu plentyn gartref. Roedd prosesau ar waith er mwyn gallu gofyn cwestiynau i rieni a darparu cyngor a chymorth iddynt ac amlinellodd rhai o'r rhesymau a roddwyd gan rieni. Nid oedd yn ofynnol i'r Awdurdod ddarparu cefnogaeth ariannol i rieni, ond roedd cyllid grant ar gael i helpu gyda hyn a gwaith yn mynd rhagddo gyda theuluoedd i benderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio'r adnodd. Roedd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod i fonitro'r teuluoedd, a phe bai unrhyw bryderon yn codi, gallai'r Awdurdod gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol ac enwebu ysgol i'r plentyn ei mynychu. Nid oedd unrhyw orchmynion wedi'u cyflwyno yn y flwyddyn ddiwethaf. Darparwyd gwybodaeth ar rôl monitro'r gwasanaeth a phenodiad y Swyddog Cefnogi Addysg a oedd yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth Lles Addysg mewn perthynas â chodi pryderon. Roedd y Swyddog Cefnogi Addysg wedi derbyn ymateb cadarnhaol i gyfarfodydd, ac amlygodd rhai o'r materion a godwyd gan rieni a'r datrysiadau a nodwyd. Roedd yr Awdurdod yn rhan o'r fforymau rhanbarthol a chenedlaethol a darparwyd sicrwydd y byddai canllawiau diwygiedig yn cael eu darparu flwyddyn nesaf. Roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cynnig cronfa ddata o bob disgybl a oedd yn derbyn addysg yn y cartref, ond roedd y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, felly byddai'n rhaid aros am ganllawiau mewn perthynas â hyn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dave Mackie, diolchodd yr Uwch Reolwr iddo am ei sylwadau cadarnhaol, a dywedodd y byddai hi'n rhannu'r rhain â'r tîm. O ran grwpiau neu debygrwydd, dywedodd fod hyn yn amrywio gyda rhai'n dal i brofi lefelau uchel o orbryder, ac roedd y plant hyn yn gallu cael mynediad at eu haddysg y tu allan i'r ysgol. Eglurodd fod rhai rheini'n dewis gwneud hyn o ganlyniad i'r pwysau sydd ynghlwm â phresenoldeb yn yr ysgol. Roedd y Gwasanaeth Lles Addysg yn herio rhieni mewn perthynas â hyn

gan ofyn ai dyma oedd y dewis cywir i'r unigolyn ifanc ac a oedd sylwadau a chyfranogiad yr unigolyn ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses hon. Tynnodd sylw hefyd at nifer y disgyblion a oedd wedi dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwaith rhagweithiol gan yr ysgol a'r tîm.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynghylch monitro plant nad ydynt yn derbyn addysg, nododd yr Uwch Reolwr fod cydweithwyr ym maes iechyd yn hysbysu'r Awdurdod am blant ym mlwyddyn meithrin a derbyn yn flaenorol. Roedd hyn yn eu galluogi i gysylltu gyda'r rhieni hynny os nad oedd plant wedi cofrestru mewn ysgol, ond heriwyd yr Awdurdod mewn perthynas â hyn a nodwyd nad oedd ganddynt hawl i'r wybodaeth hon. Nid oedd yn ofynnol i riant gofrestru gyda'r Awdurdod os nad oeddent wedi bod mewn ysgol. Roedd LIC wedi gobeithio mynd i'r afael â hyn drwy'r gronfa ddata genedlaethol ond roedd llobio cryf gan y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn erbyn hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Parkhurst ar gydweithio, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr bod perthnasoedd cryf ar draws gwasanaethau'r Cyngor gyda Swyddog Lles Addysg sy'n rhan o'r Ganolfan Cymorth Cynnar. Roedd modd cysylltu â rhieni i drafod yr addysg a ddarperir ond nid oedd ganddynt hawl i gael mynediad i eiddo. Byddai unrhyw bryderon yn cael eu codi gyda chydweithwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddynt drefnu ymweliad.

Cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu - Ymgysylltu bod nifer o asiantaethau partner ac Awdurdodau Lleol eraill ar draws Cymru ynghlwm â sicrhau bod modd nodi pobl sy'n symud i'r ardal. Roedd partneriaeth gadarn a chydlynol â'r Tîm Cymunedol, Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm Datblygu hefyd a oedd allan yn y gymuned yn gyson yn siarad gyda phobl ifanc ac roeddent yn aml yn rhoi gwybod am blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol er mwyn gallu gwneud ymholiadau diogelu lle bo angen.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Bill Crease mewn perthynas â phlant yn disgyn drwy'r broses wrth symud o un Awdurdod i'r llall, dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod y portffolio'n rhannu'r pryderon hyn. Nododd fod y Pwyllgor blaenorol wedi ysgrifennu at LIC yn gofyn cwestiwn penodol am eu bwriad i greu cronfa ddata genedlaethol. Roedd nifer o rieni wedi gwneud y penderfyniad hwn ac yn amddiffyn eu hawl i wneud y penderfyniad hwnnw, ac roedd yn rhaid parchu hynny. Roedd gan yr Awdurdod hefyd gyfrifoldebau sylweddol mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc ac yn teimlo bod y systemau mor gadarn ag y gallant fod yn absenoldeb y gronfa ddata.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Gladys Healey ynghylch diogelu a lefel yr addysg a ddarperir, dywedodd y Prif Swyddog fod y portffolio'n rhannu'r pryderon hyn, ond nododd fod yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr a'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu wedi cynnig sicrwydd i Aelodau. Dywedodd fod yr Awdurdod yn gwneud eu gorau o fewn eu cylch gwaith a'u pwerau i weithio mewn modd adeiladol gyda theuluoedd a oedd wedi gwneud y dewisiadau hynny ac yn ymgymryd â gwaith monitro gan godi unrhyw bryderon diogelu gyda'r tîm Gwasanaethau Plant. Roedd yr Awdurdod yn parhau i roi pwysau ar LIC am y gronfa ddata genedlaethol, a chytunwyd â sylwadau'r Cynghorydd Healey ei fod

yn hanfodol bod bob plentyn yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu potensial yn hwyrach ymlaen yn eu bywydau a'r sgiliau craidd angenrheidiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Reolwr a'i thîm a nododd nad oedd hi wedi synnu â'r cynnydd yn y niferoedd mewn ysgolion uwchradd gyda disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd. Soniodd am ei hymweliadau â disgyblion mewn ysgolion cynradd a oedd yn symud i fyny i'r ysgol uwchradd, a dywedodd mai'r rhieni oedd y rhai pryderus yn aml iawn. Roedd yn ddealladwy bod y ddwy flynedd diwethaf wedi ychwanegu at y pryderon hynny a'r effaith yn amlwg gyda phlant yn treulio llai o amser gyda'u ffrindiau. Roedd gwaith y tîm yn hynod o bwysig.

Awgrymodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at LIC i amlinellu eu pryderon mewn perthynas â'r angen am gronfa ddata genedlaethol. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym hwn.

Cafodd yr argymhelliad, a amlinellwyd o fewn yr adroddiad, ynghyd ag argymhelliad ychwanegol i ysgrifennu llythyr at LIC i'w hannog i greu cronfa ddata genedlaethol o blant sy'n derbyn addysg yn y cartref, ei gynnig gan y Cynghorydd Bill Crease a'i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y pwysigrwydd o barhau i neilltuo amser swyddogion i gefnogi a monitro darpariaeth ar gyfer y grŵp arbennig hwn o blant; ac
- (b) Ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i'w hannog i greu cronfa ddata genedlaethol o blant sy'n derbyn eu haddysg gartref.

39. DARPARIAETH IEUENCTID INTEGREDIG - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNLLUN CYFLAWNI

Rhoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) wybod nad oedd yr Uwch Reolwr, Darpariaeth Ieuencid Integredig yn gallu mynychu'r cyfarfod, ond roedd wedi paratoi'r adroddiad ac roedd hi wedi cytuno i rannu adborth a chwestiynau gan yr Aelodau gydag ef yn dilyn y cyfarfod.

Amlinellodd y Prif Swyddog y gwaith partneriaeth a oedd yn mynd rhagddo i gefnogi pobl ifanc fel y nodir yn yr adroddiad. Darparodd wybodaeth am y gefnogaeth, datblygiad a'r hyfforddiant a ddarperir i'r partneriaid hynny i alluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol. Eglurodd bod heriau recriwtio sylweddol ar gyfer y gwasanaeth hwn a oedd wedi cael effaith ar y gwasanaeth y gellid ei darparu, ond eglurodd bod gwaith ieuencid yn werthfawr tu hwnt ac yn cynnwys llwybrau cynnydd ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth i ystyried datblygu gyrfa yn y gwasanaeth hwnnw. Cyfeiriodd at y gwaith partneriaeth Fframwaith Prentisiaeth gydag Addysg Oedolion Cymru a Phrifysgol Glyndŵr i sicrhau bod cymwysterau ar gael i bobl ifanc eu cwblhau'n lleol.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybod bod yr Uwch Reolwr, Darpariaeth Ieuencid Integredig yn ystyried sut gellir mesur, nodi targedau a monitro

allbynnau ar gyfer y gwasanaeth a'r effaith ar bobl ifanc. Roedd y newidiadau yr oedd yn eu cynnig yn cynnwys newid cyflenwr y system monitro electronig i ddull mwy effeithiol ac roedd gwybodaeth mewn perthynas â hyn wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Roedd yr Uwch Reolwr, Darpariaeth Ieuenctid Integredig hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r wybodaeth a'r atodiadau yn yr adroddiad i siapio gwasanaethau yn y dyfodol i gefnogi pobl ifanc. Dywedodd y Prif Swyddog fod cefnogi lles emosiynol pobl ifanc yn eu helpu i ymgysylltu'n well yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch eglurdeb ym mhwynt 1.03 o'r adroddiad gan y Cynghorydd Dave Macie, eglurodd y Prif Swyddog ei fod yn cyfeirio at y Wobr Dug Caeredin, a oedd yn boblogaidd iawn ymhlith ysgolion ac yn fuddiol iawn ar gyfer pobl ifanc. Roedd yr Uwch Weithiwr Ieuenctid hefyd yn arweinydd Dug Caeredin ac yn cynnig cefnogaeth i ysgolion i gynnig eu rhaglenni eu hunain a bodloni'r prosesau achredu. Darparodd wybodaeth am y ganolfan mynediad agored yn yr Wyddgrug a'r camau a oedd yn cael eu cymryd i alluogi hyn i barhau.

Awgrymodd y Cynghorydd Dave Mackie y byddai modd cynnal gweithdy i Aelodau'r Pwyllgor i amlinellu sut y gellid darparu'r amcanion o fewn Cynllun Cyflawni 2021-2024. Croesawodd y Prif Swyddog yr awgrym hwn a dywedodd y gellid trefnu gweithdy yn hwyrach yn 2023 ac y gellid gwadd pobl ifanc i'r gweithdy i amlinellu eu safbwynt i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cunningham fod y Fframwaith Prentisiaeth yn rhagorol ac nad yw'r Brifysgol yn addas i bawb. Roedd yn falch ei fod yn cael ei gyflwyno fel cymhwyster i annog pobl ifanc i ymuno â'r Gwasanaeth Ieuenctid drwy'r Fframwaith Prentisiaeth.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Bill Crease ar y pedwar argymhelliad a'r systemau rheoli data, cytunodd y Prif Swyddog fod data meintiol yn hollbwysig at ddibenion craffu a dwyn swyddogion i gyfrif, ond nid hwn oedd yr unig ffordd i werthuso canlyniadau. Roedd hi'n teimlo bod lleisiau pobl ifanc yn hollbwysig i ddangos yr effaith gadarnhaol roedd y gwasanaeth yn ei chael ar eu bywydau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mrs Lynne Bartlett am fap o'r Sir yn amlinellu lleoliad y clybiau ieuenctid, darpariaeth partneriaeth a'u cysylltiad gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod map o'r fath ar gael. Defnyddiwyd y system mapio GIS ar gyfer nifer o ddarpariaethau'r Cyngor ac roedd yn cael ei ddiweddarau gan yr Uwch Reolwr, Darpariaeth Ieuenctid Integredig a'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn o bryd. Eglurodd bod mapio lleoliadau'r clybiau ieuenctid ac edrych ar y data ar gyfer achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi galluogi i adnoddau gael eu targedu'n effeithiol.

Amlinellodd yr Uwch Reolwr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y perthnasoedd gwaith agos â'r Gwasanaethau Ieuenctid a phartneriaid yn Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Eglurodd sut roedd yr adran TG yn cysylltu'r wybodaeth a oedd ar gael ar hyn o bryd gyda'r Fframwaith GIS o fewn y Cyngor. Mynychodd y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac Ieuenctid y Bartneriaeth Lleihau Galw

yn y Gymuned sef y grŵp gorchwyl ymddygiad gwrthgymdeithasol a arweinir gan yr Heddlu. Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Grŵp hwn ynghyd â'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y Tîm Cyfiawnder Ieuencid wedi galluogi gwaith â Gwasanaethau Ieuencid Sorted Sir y Fflint a Chyfiawnder Ieuencid i ystyried datblygu dulliau allgymorth i dargedu'r adnoddau hynny lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i nodi. Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol gyda sarsiantiaid cymunedol yng Ngogledd a De Sir y Fflint gan ddefnyddio'r data a gasglwyd yn y cyfarfodydd hynny i dargedu gwasanaethau i'r ardaloedd sydd fwyaf eu hangen.

Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Preece o blaid y system Upshot a fyddai'n arbed arian i'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Bill Crease ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r penderfyniad i ddisodli'r system QES gydag Upshot, er mwyn gallu casglu data'n fwy effeithiol ar draws rhaglenni'r Ddarpariaeth Ieuencid Integredig, gan ganiatáu ar gyfer system monitro, gwerthuso a dysgu gwell a fyddai'n arwain at ddarpariaeth gwasanaeth gwell.
- (b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo hwyluso hyfforddiant ar gyfer sefydliadau partner, megis clybiau chwaraeon a sefydliadau mewn lifrai, er mwyn cynyddu effaith ymarfer gwaith Ieuencid, a chefnogi ieuchyd a lles pobl ifanc yn Sir y Fflint;
- (c) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun ac y dylai'r tîm Ddarpariaeth Ieuencid Integredig ehangach ystyried diwygiadau i'r cynllun yn y dyfodol yn ofalus iawn yn unol ag adborth gan bobl ifanc;
- (d) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad i ddechrau'r broses Achrediad Marc Ansawdd yn y Gwanwyn, gan ddechrau gydag Efydd ac yn dilyn yr argymhellion allweddol o'r broses hon, dod â'r cynllun yn ôl i'r Cabinet i gytuno i symud ymlaen i Arian ac Aur.

40. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 pm a daeth i ben am 15.52 pm)

.....
Cadeirydd